OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A489 (Newtown Road, Machynlleth, Powys) (Terfyn Cyflymder 30 mya a Therfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2017

*Gwnaed* *21 Mawrth 2017*

*Yn dod i rym* *24 Mawrth 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caersŵs – Machynlleth (yr A489) ("y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 24 Mawrth 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A489 (Newtown Road, Machynlleth, Powys) (Terfyn Cyflymder 30 mya a Therfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2017.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(2)**;

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**(2)** 1984 p. 27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2017 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A489 Trunk Road (Newtown Road, Machynlleth, Powys) (30 mph & Part-time 20 mph Speed Limits) Order 2017

*Made* *21 March 2017*

*Coming into force* *24 March 2017*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the Caersws – Machynlleth Trunk Road (A489) ("the trunk road"), in exercise of the powers conferred upon them by section 84(1), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984**(1)** and after consultation with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police, make this Order.

**Title, Interpretation and Commencement**

**1.** This Order comes into force on 24 March 2017 and its title is The A489 Trunk Road (Newtown Road, Machynlleth, Powys) (30 mph & Part-time 20 mph Speed Limits) Order 2017.

**2.** —(1) In this Order:

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means:

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984**(2)**;

**(1)** 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**(2)** 1984 c.27; Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**Cymhwyso**

**5.** Nid yw'r cyfyngiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 21 Mawrth 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" *("lluoedd arbennig")* means those units of the home forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director.

(2) Any reference in this Order to a numbered article or Schedule is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

**Restrictions**

**3.** No person shall drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 1.

**4.** No person shall drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 30 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 2.

**Application**

**5.** The restrictions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers

Dated 21 March 2017

*Nina Ley*
Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
**Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser**

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Newtown Road, Machynlleth sy'n ymestyn o bwynt 83 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Threm yr Orsedd hyd at bwynt 9 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Garden Village.

### ATODLEN 2
**Terfyn Cyflymder 30 mya**

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Newtown Road, Machynlleth sy'n ymestyn o bwynt 83 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Threm yr Orsedd hyd at bwynt 190 o fetrau i'r de-ddwyrain o’r gyffordd honno.

## SCHEDULES

### SCHEDULE 1
**Part-time 20 mph Speed Limit**

The length of the trunk road known as Newtown Road, Machynlleth that extends from a point 83 metres east of the centre-point of its junction with Trem yr Orsedd to a point 9 metres east of the centre-point of its junction with Garden Village.

### SCHEDULE 2
**30 mph Speed Limit**

The length of the trunk road known as Newtown Road, Machynlleth that extends from a point 83 metres east of the centre-point of its junction with Trem yr Orsedd to a point 190 metres south-east of that junction.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A489 (NEWTOWN ROAD, MACHYNLLETH, POWYS) (TERFYN CYFLYMDER 30 MYA A THERFYN CYFLYMDER 20 MYA RHAN-AMSER) 2017**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 24 Mawrth 2017.

Effaith y Gorchymyn yw cyflwyno terfyn cyflymder 20 mya rhan-amser ar y darn o gefnffordd yr A489 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn er mwyn gostwng cyflymder traffig a hybu diogelwch cerddwyr ger Ysgol Bro Hyddgen ym Machynlleth, Powys. Bydd hyd a lled y terfyn cyflymder 30 mya presennol ar gefnffordd yr A489 a ddisgrifir yn Atodlen 2 hefyd yn cael ei estyn. Dim ond yn ystod cyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn y tymor ysgol y disgwylir y bydd y terfyn cyflymder rhan-amser o 20 mya yn gymwys: ar yr holl adegau eraill bydd y terfyn cyflymder presennol o 30 mya mewn grym

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 22 Mawrth 2017 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Machynlleth, Stryd Maengwyn, Machynlleth, Powys SY20 8DY neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1262211/1.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Parhaol/2017).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLENNI**

**ATODLEN 1**
**Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser**

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Newtown Road, Machynlleth sy'n ymestyn o bwynt 83 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Threm yr Orsedd hyd at bwynt 9 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Garden Village.

**THE A489 TRUNK ROAD (NEWTOWN ROAD, MACHYNLLETH, POWYS) (30 MPH & PART-TIME 20 MPH SPEED LIMITS) ORDER 2017**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under section 84(1), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 24 March 2017.

The effect of the Order is to introduce a part-time 20 mph speed limit on the length of the A489 trunk road described in Schedule 1 to this Notice in order to reduce the speed of traffic and promote pedestrian safety near Ysgol Bro Hyddgen at Machynlleth, Powys. The extent of the existing 30 mph speed limit on the A489 trunk road described in Schedule 2 will also be extended. The part-time 20 mph speed limit is only expected to apply for limited periods of the day during school term time: at all other times the existing 30 mph speed limit will be in force.

During a period of 6 weeks from 22 March 2017 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Machynlleth Library, Maengwyn Street, Machynlleth, Powys SY20 8DY or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1262211/1.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2017).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULES**

**SCHEDULE 1**
**Part-time 20 mph Speed Limit**

The length of the trunk road known as Newtown Road, Machynlleth that extends from a point 83 metres east of the centre-point of its junction with Trem yr Orsedd to a point 9 metres east of the centre-point of its junction with Garden Village.

## ATODLEN 2
## Terfyn Cyflymder 30 mya

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Newtown Road, Machynlleth sy'n ymestyn o bwynt 83 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Threm yr Orsedd hyd at bwynt 190 o fetrau i'r de-ddwyrain o’r gyffordd honno.

## SCHEDULE 2
## 30 mph Speed Limit

The length of the trunk road known as Newtown Road, Machynlleth that extends from a point 83 metres east of the centre-point of its junction with Trem yr Orsedd to a point 190 metres south-east of that junction.